Llinell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

# MORRIS, MORRIS ap RHISIART, neu MORRIS PRICHARD (1674 - 1763),

**Enw:** Morris ap Rhisiart Morris
**Dyddiad geni:** 1674
**Dyddiad marw:** 1763
**Priod:** Margaret Morris (née Owen)
**Plentyn:** Ellen Davies (née Morris)
**Plentyn:** William Morris
**Plentyn:** Richard Morris
**Plentyn:** John Morris
**Plentyn:** Lewis Morris
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Hugh Owen

tad Lewis, Richard, William, a John Morris (gweler yr ysgrifau arnynt), a gŵr Margaret Owen (1671 - 1752) o Fodafon-y-glyn yn Llanfihangel-tre'r-beirdd; fe'i ganwyd ef yn y Tyddyn Melus yn yr un plwyf, a phriododd ym mis Mehefin 1699. Wedi geni ei fab hynaf (1701), aeth i fyw i'r Fferem, ond symudodd yn 1707 i Bentrerianell, gan ddal ymlaen gyda'i waith fel cylchwr, ac amaethu. Pan fu farw ei wraig, aeth ei ŵyres Margaret Owen (merch ei ferch Elin) a'i gŵr yno i fyw gydag ef. Ymadawodd â Phentrerianell yn 1761, a mynd i fyw mewn llety yn Llannerch-y-medd, lle y bu farw 25 Tachwedd 1763. Cyfranogai yn niddordebau llenyddol a hynafiaethol ei feibion.

## Awdur

**Hugh Owen**, (1880 - 1953)

## Ffynonellau

J. H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid MÃ´n) 1728-1765* (1907â€“9), cyf. I, cyf. II

mynegeion gan Hugh Owen)

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)*(London 1947-9)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20627091

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Owen, H., (1953). MORRIS, MORRIS ap RHISIART, neu MORRIS PRICHARD (1674 - 1763),. *Y Bywgraffiadur Cymreig.* Adferwyd 14 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORR-MOR-1674

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGELL
THE NATIO
Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government